

Maniffesto 2021

Gweledigaeth Age Cymru ar gyfer etholiadau'r Senedd 2021 – bywyd diweddarach gwell i bob person hŷn

Gweledigaeth Age Cymru yw cael Cymru lle mae pawb yn mwynhau iechyd da, yn byw yn ddiogel, yn rhydd o wahaniaethu ac yn cymryd rhan weithredol yn eu cymuned; mae a wnelo ein prif bryder â'r bobl hynny sydd bellaf oddi wrth brofi neu wireddu bywyd diweddarach da.

Mae yna wahaniaethau enfawr ymhlith y boblogaeth hŷn, gyda rhai mewn sefyllfa lawer gwell nag eraill. Ar hyn o bryd, mae bywyd hyd yn oed yn fwy cyfyngedig a llwm i'r rhai sydd ar begwn llai dethol y sbectrwm, a dyma'r bobl hŷn y poenwn fwyaf amdanynt.

Yn etholiad y Senedd rydym eisiau gweld pob plaid wleidyddol yn cyflwyno polisiau i helpu pobl hŷn, er mwyn i fwy o bobl allu mwynhau bywyd diweddarach diogel, llawn urddas a gwerth chweil – sef y math o fywyd diweddarach y dymunwn ei gael i ni ein hunain a'n hanwyliaid.

Hawliau i bobl hŷn

Ein blaenoriaeth gyffredinol ar gyfer y Llywodraeth nesaf yng Nghymru yw hyrwyddo a diogelu hawliau pobl hŷn. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un arbennig o anodd i bobl hŷn ac rydym yn awyddus i sicrhau bod y problemau a brofw'n cael eu cydnabod mewn cynlluniau ar gyfer ail-greu ar ôl Covid.

Tlodi a llais

- Mae 120,000 o bensiynwyr yng Nghymru yn byw mewn tlodi (i)
- Amcangyfrifir nad yw 80,000 o aelwydydd yng Nghymru sy'n gymwys i gael Credyd Pensiwn yn mynd ati i hawlio'r budd-dal (ii)
- Mae yna anghydraddoldeb parhaus o ran cael mynediad at eiriolaeth ar gyfer pob person hŷn yng Nghymru (iii)
- Dim ond 49% o bobl 75 oed a hŷn sy'n defnyddio'r rhynggrwyd (iv)

Dylai pawb fyw gydag urddas a pharch. Mae pobl hŷn yn aelodau cyfartal o'r gymdeithas ac ni ddylent orfod wynebu agweddau oedraniaethol. Mae pobl hŷn yn haeddu parch cyfartal, hawliau cyfartal a'r un mynediad at wasanaethau â gweddill y boblogaeth.

Mae hi'n bwysig i bobl hŷn fod yn ymwybodol o'u hawliau a gallu eu harfer, a chredwn fod angen gwneud mwy i wella gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn ledled Cymru.

Tlodi ymhlith pensiywyr

Er bod 120,000 o bensiynwyr yn byw mewn tlodi (v), mae miliynau o bunnoedd o hawliau'n cael eu gadael heb eu hawlio bob blwyddyn yng Nghymru – arian y gellid ei ddefnyddio i godi pobl hŷn o dlodi. Mae Credyd Pensiwn, Lwfans Gweini, diystiriadau, disgowntiau ac eithriadau o ran y dreth gyngor, a phensiynau'r Lluoedd Arfog i gyd yn enghreifftiau o hawliau na chânt eu hawlio, a hynny gan nad yw pobl yn gwybod amdanynt neu oherwydd eu bod yn peidio â chyflwyno cais gan eu bod yn credu nad ydynt yn gymwys i'w cael.

Gwasanaethau eirioli

Mae gwasanaethau eirioli annibynnol yn bwysig o ran helpu pobl i gael llais a'u helpu i ailafael yn yr awenau mewn sefyllfaoedd anodd. Gallant helpu pobl i sicrhau eu hawliau a gallant gynrychioli eu buddiannau. Gall gwasanaethau eirioli helpu i atal gwahaniaethu, esgeulustod neu gamdriniaeth trwy alluogi pobl hŷn sydd mewn perygl i ddod yn fwy ymwybodol o'u hawliau a mynegi eu dymuniadau a'u pryderon. Mae ein gwaith ymchwil 'Pwysigrwydd Eiriolaeth' wedi ein galluogi i ddod o hyd i fylchau mewn gwasanaethau eirioli annibynnol; ac er bod gwasanaethau newydd wedi cael eu hariannu, mae yna anghydraddoldebau i'w cael o hyd o ran argaeledd eiriolaeth i bob person hŷn. (vi)

Sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed

Er mwyn i gymunedau allu gwasanaethu pobl hŷn yn ddigonol, rhaid i farn a phrofiadau pobl hŷn gael eu hystyried wrth gynllunio a darparu cyfleusterau a gwasanaethau.

Rhaid i bobl hŷn deimlo bod modd iddynt leisio'u barn ynglŷn â materion trwy gyfrwng ymgynghori ac ymgysylltu ystyrllon. Yn ôl 'Cyfrifiannell Gymunedol' Age Cymru, mae nifer o bobl hŷn Cymru yn teimlo na chaiff eu lleisiau eu clywed yn lleol. (vii) Wrth i fwy o wybodaeth ac ymgynghoriadau gael eu cyflwyno'n bennaf neu'n gyfan gwbl ar-lein, mae yna berygl gwirioneddol y bydd nifer o bobl hŷn yn cael eu hallgáu.

Pobl hŷn nad ydynt ar-lein

Mae allgáu digidol yn her fawr i bobl hŷn. Wrth inni symud yn nes at drefn lle darperir popeth yn 'ddigidol yn ddiodyn', mae yna berygl cynyddol y bydd pobl hŷn, nad ydynt ar-lein, yn dioddef anfantais ddifrifol. Mae hyn wedi dod yn arbennig o amlwg yn ystod y

pandemig. Mae cyfran y bobl hŷn sy'n defnyddio'r rhyngwrwd yn cynyddu, ond dim ond 49% o bobl 75 oed a hŷn yng Nghymru sy'n defnyddio'r rhyngwrwd. (viii)

Credwn y dylai gwasanaethau a ddarperir ar-lein fod yn wasanaethau o ansawdd uchel ac y dylent fod yn hawdd eu defnyddio, a chredwn hefyd y dylai gwasanaethau na chânt eu darparu ar-lein fod cystal o ran ansawdd ac yn gwbl hygyrch. Mae gwasanaethau llyfrgell yn hollbwysig o ran hwyluso cynhwysiant digidol, a rhaid diogelu ac ymestyn y gwasanaethau hyn er mwyn sicrhau eu bod o fewn cyrraedd i bobl hŷn. Ymhellach, mae angen rhoi cymorth i bobl hŷn er mwyn iddynt allu goresgyn y rhwystrau sy'n gysylltiedig â mynd ar-lein.

Cyflogaeth

Cred Age Cymru y dylai pawb allu parhau i weithio cyhyd ag y dymunant a chyhyd ag y bônt yn abl i wneud hynny, ac na ddylai neb wynebu anfantais ar sail eu hoed. Mae mynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu yn rhan hanfodol o wella'r sefyllfa gwaith.

Mae gwahaniaethu ar sail oed yn y gwaith yn dal i fod yn gyffredin, er gwaethaf Deddf Cydraddoldeb 2010. Cred 40% o weithwyr 50 oed a hŷn eu bod wedi dioddef anfantais yn y gwaith oherwydd eu hoed. (ix)

Er mwyn i bobl hŷn allu arfer eu hawliau, rhaid i'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru sicrhau'r canlynol:

- Dylai gwasanaethau cyhoeddus fod yn rhagweithiol o ran rhoi gwybod i bobl hŷn pryd y maent yn gymwys i hawlio budd-daliadau/hawliau ac ati
- Dylai gwasanaethau eirioli fod ar gael i bawb sydd eu hangen, a dylent gael eu hyrwyddo ar hyd ac ar led. Dylent gael eu hariannu mewn modd cynaliadwy a dylent gwmpasu amrywiaeth o fodolau cyflawni er mwyn i fwy o bobl allu cael mynediad atynt
- Rhaid darparu gwybodaeth a gwasanaethau mewn modd hygyrch a rhaid eu darparu 'ar-lein' ac 'all-lein'
- Rhaid diogelu ac ymestyn y rôl hollbwysig sydd gan wasanaethau llyfrgell o ran hwyluso cynhwysiant digidol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau o'r fath o fewn cyrraedd i bobl hŷn
- Dylai Llywodraeth Cymru a phob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio Deddf Cydraddoldeb 2010 yn effeithiol, gan ddiogelu pobl hŷn rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb oed mewn bywyd diweddarach
- Dylai Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fynd ati'n fwy effeithiol i gyflwyno achos dros gyflogi gweithwyr hŷn, yn cynnwys gwella ymwybyddiaeth o wahaniaethu ar sail oed.

Iechyd a gofal cymdeithasol di-dor

Mae'r diffyg cysylltiad rhwng systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn bryder i bobl hŷn. Er bod yr arian yn cael ei dargedu'n bennaf at y gwasanaeth iechyd, mae gofal cymdeithasol o ansawdd yn hollbwysig o ran cynnig urddas ac ansawdd bywyd, o ran atal derbyniadau dianghenraid i'r ysbyty ac o ran sicrhau bod pobl yn cael cymorth priodol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o ofal eilaidd.

Oedi wrth drosglwyddo gofal

Cred Age Cymru y dylid canolbwyntio ar ddarparu gofal cydgysylltiedig, cydlynol, yn ogystal â chynnig profiad gwell i bobl hŷn pan fyddant yn defnyddio'r gwasanaethau.

Mater hollbwysig yn hyn o beth yw oedi wrth drosglwyddo gofal – hynny yw, pan mae pobl hŷn sy'n ffit yn feddygol i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn gorfod aros yno oherwydd diffyg cymorth gofal cymdeithasol priodol a fyddai'n eu galluogi i ddychwelyd adref. Gwyddom fod aros yn hir ac yn ddianghenraid yn yr ysbyty yn cael effaith negyddol ar bobl hŷn, effaith a all arwain at waethygu eu cyflwr a chynyddu'r perygl y byddant yn syrthio ac yn torri asgwrn, gan beri iddynt ddal heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (neu ddioddef yn hirach o heintiau o'r fath) a thrwy hynny leihau eu gallu i fyw'n dda ac yn annibynnol ar drefniadau cymorth ffurfiol.

Caiff rhai pobl hŷn eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amhriodol, heb gadarnhau y byddant yn ddiogel ac yn derbyn gofal yn eu cartref yn ystod eu hadferiad – rhywbeth a allai arwain at broblemau mwy difrifol a pheri iddynt orfod mynd yn ôl i'r ysbyty. Mae hyn wedi cynyddu yn ystod y pandemig.

Hefyd, rhaid aros yn hirach erbyn hyn cyn cael gofal canolradd, neu cyn y gellir darparu gofal canolradd neu ofal ailalluogi pan fo pecyn gofal llawn yn fwy priodol.

Mae gormod o bobl hŷn yn gorfod aros mewn gwllau ysbyty yn hirach na'r angen tra caiff trafodaethau cymhleth eu cynnal rhwng asiantaethau ynghylch ariannu pecyn hirdymor. Mae dadleuon ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am ariannu gofal pellach yn amlwg yn rhwystro cydweithio effeithiol, a dylid diwygio'r fframwaith presennol er mwyn sicrhau na fydd pobl hŷn yn dioddef o ganlyniad i'r dadleuon hyn rhwng gwahanol sefydliadau.

Mae trosglwyddo gofal mewn modd effeithiol yn hollbwysig er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar ofal yr unigolyn a sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl. Eto i gyd, mae'r cydlyniant ymhell o fod yn ddi-dor. Gan fod nifer o bobl hŷn yn dibynnu ar sawl proffesiwn gwahanol, neu sawl tîm o weithwyr proffesiynol, gall diffyg cydweithio rhwng y proffesiynau neu'r timau hyn effeithio'n fawr ar eu bywydau beunyddiol.

Diffyg un pwynt cyswllt

Yn aml, mae pobl hŷn yn gysylltiedig â nifer o wasanaethau gwahanol a byddent yn elwa ar gael un cydlynnydd gofal, neu brif gydlynnydd gofal, a allai gynnig un pwynt cyswllt i'r person hŷn, yn ogystal â cheisio gwella'r cydlyniant rhwng y gwasanaethau. Un rhwystredigaeth fawr yw'r angen i gynnal amryfal asesiadau neu orfod ail-ddweud yr un wybodaeth drosodd a throsodd wrth wahanol weithwyr proffesiynol o wahanol sectorau.

Partneriaeth gyson

Tasg anodd fu creu partneriaeth weithio gyson ar draws y GIG, llywodraeth leol a'r trydydd sector, ac mae nifer o gyfyngiadau wedi'u crybwyll, yn cynnwys diffyg arweinyddiaeth, llywodraethu gwael a diffyg arian, yn ogystal â phroblemau logistaidd fel rhannu'r wybodaeth a'r ffaith y defnyddir systemau TG gwahanol. Mae cyfathrebu effeithiol, ynghyd â'r gallu i rannu'r wybodaeth a'r data, yn hanfodol os ydym am ddarparu gofal integredig.

Mewn achosion pan fo arferion da wedi'u datblygu trwy gyfrwng rhaglenni peilot, dylid pennu a rhannu'r arferion hyn trwy Gymru i gyd er mwyn creu patrymau mwy cyson wrth gyflwyno gwasanaethau. Byddai gwersi sydd wedi'u dysgu eisoes yn cael eu rhannu, gan osgoi'r angen i ailddysgu gwersi'n barhaus mewn rhannau eraill o Gymru gan nad oedd yr wybodaeth ar gael.

Hefyd, mae yna angen cynyddol i Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gynnal arolygiadau cyfochrog neu ar y cyd er mwyn asesu cynnydd y cydweithio ac osgoi ailadrodd arolygon yn y lleoliadau hynny a ddaw dan gylch gwaith y ddau sefydliad.

Er mwyn galluogi pobl hŷn i gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cydgysylltiedig, rhaid i'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru sicrhau'r canlynol:

- Dylid darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd di-dor i bobl hŷn. Gall gofal cymdeithasol o ansawdd briodol leihau'r baich ar y GIG. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid cael cydweithio effeithiol a rhaid hoelio'r sylw ar ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- Pan fo rhaglenni peilot llwyddiannus wedi'u rhoi ar waith, dylai awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG sicrhau bod yr arferion da'n cael eu pennu a'u rhannu trwy Gymru i gyd.

Ariannu gofal cymdeithasol

Rydym eisiau sicrhau bod gan Gymru system gofal cymdeithasol sy'n addas i'r diben ac sy'n diwallu anghenion pobl hŷn, heb iddi gosbi pobl yn ariannol pan fônt angen cymorth mewn argyfwng.

Cred Age Cymru y byddai'n decach cael system lle sicrheir bod gwasanaethau gofal yn cael eu darparu'n rhad ac am ddim ar yr adeg y'u defnyddir, yn yr un ffordd â gwasanaethau'r GIG. Byddai hyn yn sicrhau bod gofal ar gael i bawb pan fônt mewn angen, gan wasgaru cost y gwasanaethau ar draws y cenedlaethau yn hytrach na bod y gost yn syrthio ar y bobl hynny sy'n ddigon anffodus i ddatblygu anghenion gofal.

Cyn pennu dull newydd, teg a chynaliadwy o ariannu gofal cymdeithasol yn y dyfodol, rhaid meddwl yn ofalus am y mater a chynnal trafodaethau cyhoeddus helaeth.

Cred Age Cymru y dylid cael system a fydd yn sicrhau:

- Bod digon o arian yn y system i sicrhau gwasanaethau priodol ac o ansawdd uchel mewn perthynas ag atal, ymyrraeth gynnar, ailalluogi a gofal;

- Bod holl elfennau'r system gofal a chymorth yn cael eu hariannu'n ddigonol er mwyn esgor ar ganlyniadau o ansawdd uchel;
- Bod ansawdd bywyd mewn cartrefi gofal a gwasanaethau gofal yn y cartref yn cael ei gynnal trwy gyfrwng lefelau ariannu cynaliadwy;
- Bod pobl hŷn a'u cynrychiolwyr yn llunio'r polisi newydd ar y cyd o'r cam cynharaf;
- Bod pobl yn gallu cynllunio ar gyfer gofal hirdymor;
- Bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar unigolion.

Hefyd, byddai Age Cymru yn disgwyl gweld sawl elfen yn y system bresennol yn diflannu o ganlyniad i unrhyw system ariannu newydd, yn cynnwys:

- 'ymylon y dibyn' oherwydd gwahanol feini prawf cymhwysra;
- hunangyllidwyr mewn cartrefi gofal yn traws-noddi preswylwyr a ariennir gan y cyngor.

Er mwyn i bobl hŷn gael system gofal cymdeithasol sy'n addas i'r diben, rhaid i'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru:

- Ymrwymo i osod amserlen ar gyfer cynnal trafodaethau cyhoeddus helaeth ynghylch ariannu gofal cymdeithasol.

Mynediad at ofal sylfaenol

- Cafodd 70% o bobl hŷn brofiad negyddol wrth gael mynediad at ofal iechyd yn ystod y cyfnod clo (x)
- Fe wnaeth 80% o bobl 64 oed a hŷn gysylltu â'u meddyg teulu yn ystod 2019-20, ac mae'r ganran yn cynyddu i 82% ar gyfer pobl 75 oed a hŷn (xi)

Yn ystod y pandemig, mae'r anhawster hwn o ran cael apwyntiadau â meddygon teulu wedi cael ei gysylltu â phroblemau corfforol a meddyliol ymhlith pobl hŷn.

Mae gallu cael mynediad at ofal sylfaenol yn bwysig i bawb, ond mae'n arbennig o bwysig i bobl hŷn. Mae pobl hŷn yn defnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol yn amlach na phobl mewn grwpiau oedran eraill; ac mae gallu cael mynediad amserol at ofal, fel meddyg teulu o'u dewis, yn lleihau gofid, yn gwella canlyniadau iechyd ac yn helpu i gynnal annibyniaeth. (xii)

Mae pobl hŷn yn llai tebygol o allu cydymffurfio â systemau cymhleth ar gyfer trefnu apwyntiadau ac maent yn fwy tebygol o fod angen addasiadau oherwydd nam corfforol, nam ar y synhwyrau neu nam gwybyddol. Hefyd, maent yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu, ac felly maent angen mwy o hyblygrwydd er mwyn iddynt allu mynd i apwyntiadau.

Yn ôl adroddiad gan Sefydliad Bevan, caiff pobl hŷn anawsterau cynyddol gan fod practisau'n cau ac yn uno, cânt anawsterau cynyddol wrth drefnu apwyntiadau cyfleus gyda meddyg teulu o'u dewis, a hefyd cânt anawsterau cynyddol wrth gymryd rhan mewn ymgynghoriad meddygol.

Ar y gorau mae'r drefn yn rhwystredig ac yn drafferthus, ac ar y gwaethaf nid ymdrinnir â phroblemau iechyd mewn modd amserol, ac mae'n bosibl nad ymdrinnir â nhw o gwbl. Mae pobl hŷn anabl, yn arbennig, yn wynebu'r perygl na chaiff eu hanghenion gofal iechyd mo'u diwallu. Ac er y gellir rheoli rhywfaint ar y galw trwy gyfrwng systemau newydd lle cyfeirir cleifion at weithwyr proffesiynol eraill, o dro i dro caiff y galw ei gyfeirio at y gwasanaethau brys. (xiii)

Mae'r pandemig wedi dwysáu mwy fyth ar y problemau hyn. Yn ôl gwaith ymchwil gan Age Cymru, cafodd pobl hŷn broblemau mawr wrth ddefnyddio systemau ar-lein i drefnu apwyntiad i weld eu meddyg teulu yn ystod y pandemig, a daeth anawsterau i'w rhan yn sgil gorddibyniaeth ar ddulliau rhyngweithio ar-lein, fel e-byst. Cafodd eraill anawsterau yn sgil gorfod aros am amser maith ar y ffôn neu wrth ddelio â systemau brysbennu, ac yn aml dywedwyd wrthynt nad oedd eu problem iechyd yn broblem frys ac y byddai'n rhaid iddynt aros, gan eu gadael wedyn yn methu â gwybod ble i droi am help.

Ymhellach, darganfu ein gwaith ymchwil fod pobl hŷn nad oedd ganddynt fynediad at y rhyngrwyd, neu bobl hŷn a oedd yn byw mewn ardaloedd â chysylltiad rhyngrwyd gwael, wedi cael anhawster mawr i drefnu apwyntiadau. Cafodd nifer o bobl drafferthion gyda'r ffaith fod yr apwyntiadau'n cael eu cynnal 'o bell', ac roedd hyn yn cynnwys anawsterau wrth dynnu lluniau o anhwylderau. Gwelsom fod apwyntiadau ffôn yn annigonol ar gyfer diagnosisio a thrin rhai cyflyrau, heb allu darllen arwyddion yr wyneb neu ddehongli iaith y corff.

Hefyd, dywedodd nifer o bobl hŷn wrthym fod methu â chael mynediad at ddeintydd yn ystod y cyfnod clo wedi peri iddynt orfod byw gydag anawsterau, poen a phryder parhaus ynglŷn â phryd y byddent yn cael triniaeth.

Yn ystod y pandemig, mae methu â chael apwyntiadau gyda meddygon teulu wedi cael ei gysylltu â phroblemau iechyd meddwl ymhlith pobl hŷn. Oherwydd diffyg apwyntiadau wyneb yn wyneb, cafodd rhai cyflyrau eu camddechongli a chafodd triniaethau amhriodol eu rhagnodi. Mae methu â chael apwyntiadau â meddygon teulu wedi peri pryder parhaus i nifer o bobl hŷn, a dywedodd rhai pobl hŷn wrthym fod diffyg ymgynghoriad wyneb yn wyneb gyda'u meddyg teulu yn golygu bod eu problemau wedi para'n hirach na'r angen, gan arwain at iselder yn ychwanegol at y broblem wreiddiol.

Er mwyn i bobl hŷn allu cael mynediad priodol at ofal sylfaenol, rhaid i'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru sicrhau'r canlynol:

- Dylid cynnal apwyntiadau wyneb yn wyneb gyda meddygon teulu pan fo hynny'n briodol, ac ni ddylid dibynnu'n ormodol ar ddulliau rhyngweithio ar-lein
- Dylai hyd yr ymgynghoriadau fod yn briodol fel y gellir diwallu angen y claf
- Dylid cael systemau brysbennu 'oed gyfeillgar' dros y ffôn
- Dylai adeiladau fod yn hygyrch (yn gorfforol ac yn ddaearyddol)
- Dylid cyfathrebu newidiadau mawr yn y darpariaethau gofal lleol mewn modd clir
- Dylid cael cyfleoedd i ddylanwadu ar gynllunio cymunedol a phenderfyniadau
- Dylid sicrhau parhad gofal gan feddygon teulu

Cymunedau hygrych

Yn ôl 'Cyfrifiannell Gymunedol' Age Cymru (xiv):

- dywedodd mwy na 55% o'r ymatebwyr fod mynediad i doiledau cyhoeddus yn eu cymuned yn 'wael'; diffyg toiledau cyhoeddus oedd y broblem hollbwysig
- dywedodd mwy na thraean yr ymatebwyr fod y palmentydd yn eu cymuned yn 'wael'; ystyrir bod palmentydd anwastad, ynghyd â phalmentydd brics sy'n llithrig pan fônt yn wlyb, yn beryglus, ac mae palmentydd a gaiff eu cau gan geir, biniau a chelfi stryd yn cyfyngu ar fynediad i bobl â chadeiriau olwyn a sgwteri symud
- roedd 22% o'r ymatebwyr o'r farn fod mannau eistedd a mannau gorffwys yn eu cymuned yn 'wael'; diffyg cyfleusterau o'r fath oedd y brif broblem.

Mae hi'n hollbwysig i bobl hŷn allu ymgysylltu â'u cymunedau a chael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Fodd bynnag, mae nifer o bobl hŷn yn wynebu rhwystrau mawr o ddydd i ddydd sy'n eu hatal rhag cymryd rhan yn eu cymunedau, sef rhywbeth a all arwain at unigrwydd a theimlo'n ynysig.

Tynnodd 'Cyfrifiannell Gymunedol' Age Cymru sylw at ddiffyg toiledau cyhoeddus, palmentydd anwastad a pheryglus gyda cheir yn parcio arnynt, a diffyg mannau eistedd a mannau gorffwys mewn cymunedau ledled Cymru.

Y materion allweddol a grybwyllwyd mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus oedd problemau'n ymwneud â mynediad corfforol i drafnidiaeth gyhoeddus, toriadau i wasanaethau bysiau a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.

Er y ceir enghreifftiau o ardaloedd a chymunedau a chanddynt wasanaethau da, i nifer o bobl hŷn mae mynediad at arian yn bryder mawr, ac mae cau banciau a swyddfeydd post, ynghyd â meddygfeydd, llyfrgelloedd a siopau, yn peri pryder iddynt.

Yn ystod y pandemig cafodd pobl hŷn fwy o anhawster nag erioed o'r blaen i gael mynediad i'w cymunedau. Er mwyn iddynt allu ailgysylltu, mae pobl hŷn wedi dweud wrthym y byddant angen gwybodaeth hygrych a chlir am eu hardal a chymorth i fagu hyder, yn ogystal â gweld canolfannau cymunedol lleol yn ailagor a sicrhau bod toiledau cyhoeddus yn parhau i fod ar agor.

Er mwyn i bobl hŷn allu cael mynediad i'w cymunedau, rhaid i'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru wneud y canlynol:

- Cynorthwyo awdurdodau lleol i greu cymunedau 'oed gyfeillgar'
- Rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu digon o doiledau cyhoeddus hygrych ledled Cymru
- Gweithio gydag awdurdodau lleol, cymunedau a darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus i gynnal rhwydwaith trafnidiaeth hygrych, integredig a chynaliadwy ledled Cymru, er mwyn sicrhau y gall pobl hŷn barhau i gadw mewn cysylltiad â chymunedau a gwasanaethau.

Cyfeiriadau

JRF (2018) Poverty in Wales 2018 <https://www.jrf.org.uk/report/poverty-wales-2018> (i)

Independent Age (2019) Credit where it's due: Ending the £3.5 billion Pension Credit scandal report: 26 Mehefin 2019 <https://www.independentage.org/credit-where-its-due-pension-credit> (ii)

Prosiect Eiriolaeth Age Cymru (2021)(iii)

Bwletin Ystadegau Llywodraeth Cymru (2019). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19. Defnydd o'r rhyngwyd a sgiliau digidol. <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-09/internet-use-and-digital-skills-national-survey-wales-april-2018-march-2019-207.pdf> (iv)

JRF (2018) Poverty in Wales 2018 <https://www.jrf.org.uk/report/poverty-wales-2018> (v)

Age Cymru (2020) Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 Age Cymru | Pwysigrwydd Eiriolaeth (ageuk.org.uk) (vi)

Age Cymru (2020) Key findings of the Community Calculator. Age Cymru | Y Gyfrifiannell Gymunedol (ageuk.org.uk) (vii)

Llywodraeth Cymru (2019) Bwletin Ystadegol. Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19. Defnydd o'r rhyngwyd a sgiliau digidol. <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-09/internet-use-and-digital-skills-national-survey-wales-april-2018-march-2019-207.pdf> (viii)

CIPD/CMI (2010), Managing an ageing workforce <https://www.yumpu.com/en/document/read/36420017/managing-an-ageing-workforce-cmi-uk-ncoss> (ix)

Age Cymru (Hydref 2020) Experiences of people aged 50 or over in Wales during the first Covid-19 lockdown, and the road to recovery <https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-cymru/documents/covid-19-survey/experiences-of-people-aged-50-or-over-in-wales-during-the-first-covid-19-lockdown-and-the-road-to-recovery---october-2020-eng.pdf> (x)

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/2020 <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2019-i-mawrth-2020>

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/2020 <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2019-i-mawrth-2020>

Sefydliad Bevan (2019) Access to GPs. <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2019/11/Access-to-GPs-Final-English.pdf> (xiii)

Age Cymru (2020) Key findings of the Community Calculator. Age Cymru | Y Gyfrifiannell Gymunedol (ageuk.org.uk) (xiv)

I gael rhagor o wybodaeth am y manifesto hwn, anfonwch e-bost at enquiries@agecymru.org.uk neu ffoniwch 029 2043 1555

Dilynwch ni ar

facebook.com/agecymru

twitter.com/agecymru

Mae Age Cymru yn elusen gofrestrdig, rhif 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant ac mae wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad ein swyddfa gofrestrdig: Llawr Isaf, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2021